Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Maes Ebbw
## Maesglas Road
## Maesglas
## Casnewydd
## NP20 3DG

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Cyd-destun

Agorodd Ysgol Maes Ebbw yng Nghasnewydd yn 2011, yn dilyn uno dwy ysgol arbennig. Mae gan bob un o'r 156 o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae gan yr ysgol dri safle ar draws Casnewydd (prif safle Maes Ebbw, Maes Ebbw Bach a Maes Ebbw Brynglas).

Daw'r holl ddisgyblion o Gasnewydd, ac mae ychydig iawn ohonynt yn byw yn agos at yr ysgol. Mae 31% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae tuag un o bob pump o'r disgyblion o grwpiau lleiafrif ethnig, o gefndiroedd Asiaidd a hiliau cymysg yn bennaf.

Cenhadaeth yr ysgol yw darparu amgylchedd symbylol sy'n herio galluoedd a disgwyliadau pawb.

Ar hyn o bryd, mae cyfwerth â 24 o athrawon amser llawn a 70 o staff cymorth dosbarth. Bu'r pennaeth yn y swydd er 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Er bod rhai cryfderau yn y dysgu, addysgu a'r gofal, cymorth ac arweiniad, bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon da o ran cyflawni'r targedau yn eu cynlluniau unigol
- Mae gwendidau mewn cynlluniau athrawon, sy'n golygu nad yw disgyblion yn cael eu cadw ar dasg yn ddigonol
- Nid yw agweddau ar drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion

### Rhagolygon gwella

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol cryf i waith yr ysgol. Fodd bynnag, bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol. Mae hyn oherwydd:

- Er i arweinwyr gyflwyno systemau yn ddiweddar i ddadansoddi data perfformiad disgyblion mewn ffordd gyson, nid yw athrawon yn defnyddio data'n effeithiol i osod targedau i ddisgyblion ar y lefel gywir
- Nid yw arweinwyr yn rhoi digon o sylw i arfarnu effaith darpariaeth ar wella deilliannau i ddisgyblion
- Nid yw staff yn defnyddio cynlluniau unigol disgyblion yn ddigon da i fonitro ac arfarnu cynnydd disgyblion a gosod camau nesaf priodol mewn dysgu ac ymddygiad
- Nid yw materion diweddar yn ymwneud â llywodraethu wedi eu datrys yn llawn hyd yn hyn, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r corff llywodraethol i ganolbwyntio'n glir ar gynorthwyo'r ysgol i wella safonau

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial

A2 Sicrhau bod cynlluniau ac addysgu yn darparu digon o her i bob disgybl

A3 Gwella ansawdd cynlluniau addysg ac ymddygiad unigol

A4 Mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd o ran diogelu

A5 Gwella hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Maes Ebbw yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu. O ran eu hanghenion a'u galluoedd, maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu dysgu. Mae'r camau bach ond sylweddol o gynnydd a wneir gan ddisgyblion ag anghenion corfforol cymhleth yn dangos, dros amser, bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd arbennig o gryf.

Nid oes unrhyw wahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rhai sydd dan ofal yr awdurdod lleol. Mae'r dull dysgu unigol yn golygu nad yw'n briodol cymharu canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol â meincnodau cenedlaethol a lleol.

Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd yn dda â'r tasgau sy'n cael eu darparu, yn gyffredinol, nid ydynt yn bodloni'r targedau addysg ac ymddygiad unigol sy'n cael eu gosod ar eu cyfer yn gyson.

Mae disgyblion ag anghenion corfforol cymhleth yn defnyddio technoleg yn dda, er enghraifft defnyddio switshis i ddangos eu dewisiadau. Mae hyn yn eu helpu i ymuno â'u cyfoedion yn y dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn ymateb yn arbennig o dda i raglenni symud ysgafn sy'n cynorthwyo eu datblygiad corfforol.

Mae disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn datblygu defnydd effeithiol o amserlenni i wybod beth yw eu gweithgareddau dyddiol. O ganlyniad, maent yn deall y gweithgareddau dysgu y mae angen iddynt eu cwblhau cyn iddynt symud ymlaen neu gael egwyl am ginio. Mae hyn yn lleihau eu pryder, yn eu helpu i fod yn fwy abl i ddysgu, ac yn gwella eu hymddygiad. Mae'r disgyblion hyn yn cynyddu eu defnydd o system cyfnewid lluniau i ymestyn eu medrau lleferydd a chyfathrebu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd y targedau yn eu proffil cyfathrebu unigol. Yn ôl yr angen, maent yn defnyddio arwyddion a gwrthrychau gweledol yn sbardunau i gynorthwyo eu dealltwriaeth, i roi gwybod am eu hanghenion ac i fynegi eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus mewn gwersi ar draws y cwricwlwm, ac yn eu sgyrsiau cymdeithasol â'u cyfoedion yn ystod amseroedd distrwythur. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus ac yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa briodol mewn ystod o sefyllfaoedd, gan gynnwys defnyddio termau mathemategol mewn gwers dylunio a thechnoleg. Maent yn mwynhau rhyngweithio â'i gilydd ac ag oedolion mewn grŵp bach ac fel dosbarth cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau llythrennedd a rhifedd. Dros amser, maent yn dangos gwelliant cadarn. Mae ychydig o ddisgyblion yn symud ymlaen o wneud marciau cynnar iawn i ffurfio llythrennau darllenadwy, cyson yn annibynnol wrth gopïo ac ysgrifennu'n annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu medrau rhif. Er enghraifft, maent yn cyfrif ac yn cofnodi rhifau i 5 yn gywir, ac yn defnyddio marciau rhifo yn briodol â chymorth i gofnodi nifer y gwrthrychau y maent yn eu cyfrif. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn adnabod gwerth darnau arian ac yn eu defnyddio i brynu eitemau yn eu gweithgareddau menter. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol, er enghraifft wrth nodi'r darnau arian sydd eu hangen i brynu eitemau mewn archfarchnad.

Mewn gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn galw i gof strategaethau a ddysgwyd yn flaenorol ar gyfer sut i gynllunio cyflwyniad PowerPoint deniadol gan ddefnyddio lliwiau, ffont a gosodiad, a sut i gynnwys delweddau cyn argraffu.

Mewn sesiynau trampolinau adlamu, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o ran datblygu eu medrau corfforol, ac maent yn dangos mwynhad sylweddol yn y dysgu hwn. Mae ychydig o ddisgyblion yn arbrofi â symudiadau newydd yn hyderus ac yn symud o sefyll i gwympiad eistedd ac yn ôl i sefyll, gan ddangos cydbwysedd da a rheolaeth gorfforol yn hyderus.

Yn ystod eu hamser yng nghyfnodau allweddol 3, 4 a 5, mae mwyafrif y disgyblion yn ennill ystod o gymwysterau priodol mewn cyrsiau sy'n cyfateb yn dda i'w galluoedd. Er enghraifft, yn 2014-2015, enillodd deg o ddisgyblion achrediad cenedlaethol Gorwelion Newydd a Her Bontio ASDAN, ac enillodd pedwar o ddisgyblion wobr efydd Dug Caeredin. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros yn yr ysgol ar gyfer darpariaeth ôl-16. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n gadael yr ysgol sy'n peidio â pharhau mewn addysg na hyfforddiant.

Gwna mwyafrif y disgyblion gynnydd priodol mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd o ran ennill y medrau i ddeall cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg syml.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod â phwy i siarad os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn yn yr ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Lle mae disgyblion yn ei chael yn anodd rheoli eu hymddygiad, maent yn ymateb i ymyrraeth staff yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr â pharch. Mae disgyblion hŷn yn dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ddisgyblion iau, er enghraifft trwy gymryd rhan yn y rhaglen 'gyfeillion'. Mae hyn yn helpu disgyblion hŷn i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb ac yn darparu delfryd ymddwyn da i ddisgyblion iau. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i gydweithio â phobl eraill yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio'n briodol wrth ymgymryd â thasgau a gweithgareddau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fwyta bwyd iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn gwybod bod ffrwythau a llysiau yn dda iddynt ac yn deall bod angen iddynt yfed dŵr. Mae llawer ohonynt yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yng nghampfa a phyllau nofio'r ysgol. Hefyd, maent yn cyfranogi'n weithredol mewn ystod o sesiynau ymarfer corff a dawnsio addas trwy gydol y dydd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol, sef 89.35%, yn debyg i'r rhai yn y tair blynedd diwethaf. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion arbennig a gynhelir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon oherwydd mae eu cludiant yn cyrraedd yn hwyr. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn yr ysgol am y pedair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn grwpiau sy'n cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol, gan gynnwys y cyngor ysgol a'r eco-bwyllgor. Yn ddiweddar, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi dechrau casglu safbwyntiau disgyblion eraill ynghylch agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft ei darpariaeth gerddoriaeth. O ganlyniad, gall disgyblion fanteisio ar ystod ehangach o weithgareddau cerddorol erbyn hyn, fel dysgu sut i chwarae'r drymiau.

Mae disgyblion hŷn yn ysgwyddo amrywiaeth o gyfrifoldebau, gan gynnwys dosbarthu llaeth a ffrwythau i'r dosbarthiadau a chadw tir yr ysgol yn rhydd rhag sbwriel. Hefyd, mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at y gymuned ehangach; er enghraifft, paratoi barbeciw i ymwelwyr mewn digwyddiadau ysgol a helpu i drefnu nosweithiau cwis a disgos i ffrindiau a theuluoedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a symbylol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ennyn diddordeb pob disgybl bob tro.

Mae athrawon yn cyflwyno pynciau mewn ystod o destunau a themâu cymhellol, sy'n gysylltiedig â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae ystod o strategaethau ac adnoddau addas, gan gynnwys ffoneg, yn cynorthwyo i ddatblygu medrau disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ymarfer eu medrau ar draws pob maes dysgu.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'i thri safle i grwpio disgyblion yn ôl eu cyfnod allweddol a'u hanghenion unigol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael cyfle i ddysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd a datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu pob un o'r disgyblion. Mae cyfleoedd yn cynnwys gwersyll chwaraeon, cysgu yn yr ysgol dros nos, a sesiynau dawnsio hip-hop.

Gall llawer o ddisgyblion hŷn fanteisio'n addas ar gyfleoedd cwricwlaidd galwedigaethol mewn coleg addysg bellach lleol.

Mae ystod o fentrau menter diddorol, lle mae disgyblion yn gwneud ac yn gwerthu amrywiaeth o gynhyrchion, yn eu helpu i gael profiad o'r byd gwaith. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ymestyn y profiadau hyn i'r gymuned wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau defnyddiol i ddisgyblion hŷn ddatblygu annibyniaeth, hunan-barch a hyder. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros ailgylchu, cydweithio â rheolwr safle'r ysgol a chymryd rhan yn y rhaglen gyfeillion.

Ceir darpariaeth addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae darpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn annog disgyblion i ailgylchu deunyddiau'n rheolaidd ac, yn eu tro, annog cyfoedion iau i arbed ynni. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn cynllunio a monitro'r eco-god a chynllun gweithredu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau ag ysgolion a gwledydd eraill wedi eu datblygu'n ddigonol.

**Addysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio eu dulliau a'u hadnoddau'n dda i gyfateb i anghenion disgyblion. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio holi'n arbennig o dda i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu ar gyflymder priodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn cael gormod o amser oddi ar dasg. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw gweithgareddau lefel isel, fel lliwio, yn darparu digon o her i ddisgyblion.

Mewn dosbarthiadau i ddisgyblion ag anghenion corfforol cymhleth, mae addysgu a chymorth yn arbennig o effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio storïau synhwyraidd priodol a chymorth therapiwtig yn effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion a'u hannog i gymryd rhan.

Mae'r berthynas rhwng staff a disgyblion yn gryf, yn gyffredinol, ac yn meithrin amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ennyn eu diddordeb a'u hysgogi'n frwdfrydig i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu. Maent yn darparu modelau iaith effeithiol i ddisgyblion trwy siarad yn glir, ailadrodd gwybodaeth a defnyddio ciwiau gweledol fel arwyddion a symbolau, lle bo hynny'n briodol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn anodi gwaith er mwyn sicrhau bod pobl eraill sy'n gweithio â'r disgyblion yn gwybod beth maent wedi ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud nesaf. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ei gwneud yn glir i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu dysgu bob tro.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniad disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'n ddigon clir sut gall disgyblion wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ategu iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae bron yr holl staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn ymateb yn effeithiol i bryderon a phroblemau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a diwrnodau gweithgarwch diddorol, fel gweithio ag artistiaid preswyl. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, sydd wedi ei chynllunio'n dda, yn darparu gwybodaeth werthfawr am ystod o faterion pwysig, gan gynnwys rhyw a pherthnasoedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol sy'n cynorthwyo ac yn cynghori staff ynghylch anghenion disgyblion unigol. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth gan wasanaethau arbenigol, fel y cwnsler, nyrs a therapyddion, i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer anghenion dysgu ac iechyd disgyblion, er enghraifft trwy therapi cyffwrdd, adlamu a hydrotherapi.

Mae'r rhaglen addysg gyrfaoedd wedi ei strwythuro'n dda. Mae'n cynorthwyo disgyblion yn dda wrth iddynt bontio i'r coleg neu wasanaethau eraill.

Mae gan yr holl ddisgyblion gynllun addysg unigol (CAU) â thargedau sy'n cysylltu'n dda â'r anghenion ar eu datganiadau. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio targedau CAU yn dda i arfarnu cynnydd disgyblion a phennu'r camau nesaf mewn dysgu.

Lle bo'n briodol, mae gan ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) a chynlluniau trin personol hefyd. Mae'r rhain yn nodi targedau a strategaethau addas sy'n helpu staff i reoli ymddygiad disgyblion a lleihau'r defnydd o ymyriadau corfforol a thynnu'n ôl. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais ar wobrwyo ymddygiad cadarnhaol.

Nid yw adroddiadau i rieni yn rhoi digon o wybodaeth i rieni am gynnydd eu plant a'u gwaith â therapyddion bob tro.

Nid yw agweddau ar drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion. Rhannodd y tîm arolygu y diffygion hyn â'r ysgol yn ystod yr ymweliad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae datganiad o genhadaeth yr ysgol i ddarparu "amgylchedd hapus a diogel" yn cael ei adlewyrchu yn ethos gofalgar a chymuned gwbl gynhwysol yr ysgol. Ceir ffocws cryf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw fath o wahaniaethu. Mae disgyblion o bob cefndir ac angen yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn cael eu trin â pharch ac urddas. Mae disgyblion yn gwrtais a chyfeillgar ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau i ddathlu cyflawniadau disgyblion unigol.

Mae'r adeiladau ar bob safle yn darparu amgylchedd dysgu symbylol i ddisgyblion, sydd wedi ei gynnal a chadw'n dda. Mae ystafelloedd dosbarth yn lân, taclus ac yn cynnwys adnoddau da i fodloni anghenion dysgu pob un o'r disgyblion. Mae arddangosiadau o ansawdd da ar y waliau yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Maent yn addysgiadol ac yn ddeniadol ac yn adlewyrchu gwaith disgyblion yn dda.

Ceir ardaloedd arbenigol sydd wedi eu cyfarparu'n dda, gan gynnwys ystafelloedd synhwyraidd, dau bwll hydrotherapi a darpariaeth ar gyfer therapi adlamu. Mae staff yn defnyddio'r rhain yn dda i fodloni anghenion cymhleth ac amrywiol y disgyblion.

Ceir ystod dda o adnoddau sy'n cyfateb yn dda i anghenion disgyblion a gofynion y cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o dir yr ysgol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, ceir mannau chwarae addas ar bob safle ac ardal rhandir ym Maes Ebbw, lle mae disgyblion yn tyfu llysiau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi cydweithio ag uwch arweinwyr a llywodraethwyr i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'n darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy sicrhau bod polisïau addas sy'n canolbwyntio'n briodol ar fodloni'r ystod eang o anghenion disgyblion. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a chyfrifoldebau. Mae dyrannu cyfrifoldebau penodol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae defnyddio rheolwr busnes yn galluogi arweinwyr i ganolbwyntio ar faterion gwella ysgol. Mae staff mewn rolau arweinyddiaeth yn cynorthwyo'r pennaeth i roi'r systemau a'r polisïau a ddatblygwyd gan yr ysgol yn ddiweddar ar waith yn briodol. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei datblygu y mae eu rôl gyffredinol mewn gwella cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gosod targedau perfformiad sy'n herio athrawon yn ddigonol i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i ddisgyblion bob tro. Mae uwch arweinwyr yn herio enghreifftiau o danberfformio yn gadarn.

Mae uwch arweinwyr yn dangos y gallu i reoli newid yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gyflwyno trefniadau asesu gwell i ddisgyblion wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae arweinwyr yn rhoi pwys sylweddol ar weithredu'r flaenoriaeth genedlaethol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Maent yn gweithio'n effeithiol yn yr ysgol ac ag ysgolion eraill yn yr ardal leol i ddatblygu'r arfer hon.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno systemau i ddadansoddi data perfformiad disgyblion mewn ffordd gyson. Mae hyn yn dechrau cynorthwyo'r holl staff i olrhain cynnydd disgyblion unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio data yn effeithiol i osod targedau perfformiad unigol i bob disgybl ar y lefel briodol. Mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio data perfformiad disgyblion yn briodol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a hyfforddi staff, er enghraifft i godi safonau darllen.

Yn ddiweddar, bu problemau sylweddol yn ymwneud â llywodraethwyr yn peidio â dilyn y gweithdrefnau cywir. Rhoddodd yr ysgol a'r awdurdod lleol gynlluniau priodol ar waith yn gyflym i ddatrys y materion hyn. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad, nid oedd y rhain wedi eu datrys yn llawn. O ganlyniad, nid yw'r corff llywodraethol wedi gallu canolbwyntio'n ddigon clir ar gynorthwyo'r ysgol i wella safonau. Er gwaethaf y materion pwysig hyn, mae gan lawer o lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a chyfrifoldebau. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro gweithgareddau, er enghraifft trwy deithiau dysgu, ac yn rhoi adborth defnyddiol i'r ysgol ar ôl eu hymweliadau. Maent yn deall cryfderau presennol yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella, ac yn monitro gwariant a chynnydd tuag at nodau gwella yn ofalus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol galendr manwl o weithgareddau hunanarfarnu sy'n cwmpasu sawl agwedd ar ei gwaith. Mae'r holl uwch arweinwyr yn cyfrannu'n briodol at y gweithgareddau hyn. Maent yn edrych yn rheolaidd ar ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol, fel gwaith disgyblion ac addysgu mewn gwersi er mwyn monitro darpariaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae uwch arweinwyr yn arfarnu ansawdd strategaethau pwysig, er enghraifft defnyddio ymyrraeth gorfforol, yn fanwl. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio strategaethau gwella ar gyfer y dyfodol.

Mae arweinwyr yn llunio barnau cadarn ar lefel y cydymffurfiad ar draws yr ysgol o ran gweithredu polisïau a strategaethau gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o sylw i arfarnu effaith darpariaeth ar wella deilliannau i ddisgyblion bob tro. O ganlyniad, ni allant lunio barnau cywir ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol arfer. Nid yw arweinwyr yn nodi meysydd pwysig i ddatblygu arfer ar draws yr ysgol bob tro, fel effeithiolrwydd cynlluniau addysg unigol disgyblion.

Dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae trefniadau i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i argymhellion o arfarniadau allanol, er enghraifft wrth ddatblygu meini prawf cyson ar gyfer arsylwi gwersi. Mae hefyd yn gwrando ar safbwyntiau rhieni, ac mae hyn wedi arwain at drefniadau diwygiedig ar gyfer amser chwarae.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella, er enghraifft gwella safonau llythrennedd, rhifedd a gwella trefniadau asesu. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn y strategaethau hyn yn briodol. Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen i roi gwelliannau arfaethedig ar waith, yn nodi'r rhai sy'n gyfrifol am fonitro a chyflwyno cynlluniau, ac yn rhoi amserlenni bras ar gyfer eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'n nodi'r effaith ddymunol ar wella deilliannau i ddisgyblion bob tro, ac mae gormod o flaenoriaethau ar gyfer gwella.

At ei gilydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn argymhellion yr arolygiad diwethaf

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau da sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau i ddisgyblion.  Er enghraifft, mae staff o asiantaethau iechyd yn cydweithio'n agos â'r ysgol i arwain staff tuag at ddarparu cymorth therapiwtig priodol i ddisgyblion.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â rhieni i helpu disgyblion i drosglwyddo'r medrau maent yn eu dysgu yn yr ysgol i'w sefyllfa gartref.  O ran disgyblion â phroblemau penodol a phroblemau iechyd, mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â phobl eraill i helpu rhieni i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol ag ysgolion prif ffrwd lleol.  O ganlyniad i brosiectau ar y cyd, fel hyrwyddo bwyta'n iach a gwasanaethau ar y cyd, daw disgyblion i adnabod disgyblion o ysgolion eraill yn y gymuned.  Ceir partneriaethau buddiol â cholegau addysg bellach ac asiantaethau gyrfaoedd sy'n helpu disgyblion i barhau â'u haddysg ar ôl iddynt adael yr ysgol.  Mae'r gwaith agos ag ysgolion arbennig eraill yn helpu athrawon i ddatblygu cymedroli cywir o waith disgyblion.

Ceir cysylltiadau defnyddiol â busnesau lleol sy'n helpu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd gwaith.  Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u cymhwyso'n fwy effeithiol yng ngweithgareddau menter yr ysgol ei hun.

Mae dyddiaduron rhwng y cartref a'r ysgol yn rhoi gwybodaeth gyfredol i rieni am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw rhieni'n cael gwybodaeth yn brydlon nac yn y fformat hawsaf ei ddeall bob tro.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau y gall yr holl ddisgyblion fanteisio ar y cwricwlwm a gweithgareddau eraill sy'n cael eu darparu ar draws yr ysgol.  Gwnant ddefnydd effeithiol o ystod o adnoddau sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn briodol.

Mae cynorthwywyr addysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol.  O ganlyniad, gallant gynorthwyo'r ystod eang o anghenion unigol disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant defnyddiol i staff sy'n cysylltu'n dda ag agweddau ar flaenoriaethau'r ysgol a nodwyd ac anghenion disgyblion unigol.  Trwy ei chysylltiadau â rhwydweithiau o ddarparwyr addysgol, mae'r ysgol wedi gallu cryfhau ei harbenigedd wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau.

Mae'r holl staff yn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o gyllid grant i wella ansawdd dysgu disgyblion.  Er enghraifft, mae profiadau cerddorol wedi cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu hyder a'u medrau perfformio.

Mae grantiau sy'n cael eu defnyddio i gynorthwyo grwpiau penodol o ddisgyblion wedi cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth rhieni o sut i helpu eu plant gartref, yn enwedig ag agweddau ar lythrennedd a rhifedd.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 59 | 51 | 3 | 5 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 86% | 5% | 8% | |
| | | 94% | 3% | 3% | |
| The school deals well with any bullying. | 60 | 46 | 6 | 8 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 77% | 10% | 13% | |
| | | 84% | 10% | 6% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 59 | 52 | 4 | 3 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 88% | 7% | 5% | |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 58 | 54 | 2 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 93% | 3% | 3% | |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 59 | 54 | 3 | 2 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 92% | 5% | 3% | |
| | | 91% | 6% | 3% | |
| I am doing well at school | 58 | 56 | 1 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 97% | 2% | 2% | |
| | | 92% | 5% | 3% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 57 | 55 | 1 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 96% | 2% | 2% | |
| | | 96% | 1% | 2% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 56 | 52 | 4 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 93% | 7% | 0% | |
| | | 93% | 3% | 4% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 46 | 27 | 9 | 10 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 59% | 20% | 22% | |
| | | 67% | 21% | 12% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 48 | 3 | 4 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 87% | 5% | 7% | |
| | | 90% | 5% | 4% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 60 | 48 | 8 | 4 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 80% | 13% | 7% | |
| | | 75% | 17% | 7% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 59 | 43 | 13 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 73% | 22% | 5% | |
| | | 82% | 14% | 5% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mrs Sw Roberts | Arolygydd Cofnodion |
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Tîm |
| Mr William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Mrs Jane McCarthy | Arolygydd Tîm |
| Mr Richard Lloyd | Arolygydd Tîm |
| Mrs Catherine Mary Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Donna Rees Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Julie Nichols | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg